EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD
BRO'R WENYNEN, GWENT 2027

Cystadleuaeth 136 – Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau

Tro Gwael ar yr A470, Myrddin ap Dafydd

Tro gwael ar yr A470

Be wela i efo fy llygaid bach i
ond rhywbeth yn dechrau efo 'T'.
Tro. Mynd am dro.
Tro yn y tarmac.
Cwm cam, afon ddolennog, llwybrau sgriw.
Tro ar ôl tro
a thro unwaith eto.
Pendro a boldro drachefn a thrachefn.
Dyna ydi tro yn y sêt gefn.

"Fyddan ni'n hir eto?"
"O le i le ydi dwy awr?"
"Be ydi enw'r pentrefi cyn y byddwn ni'n cyrraedd?"
"Hon ydi'r ffordd gyflymaf?"

Ac o'r tu blaen,
daw ateb clir a siarad plaen:
"Hon ydi hi. Mwynhewch yr olygfa.
Mwynhewch y caeau gwyrdd,
y coed a'r blodau fyrdd . . ."

"'Dan ni wedi bod tu ôl i'r garafán yma ers oriau."
"Pryd 'dan ni'n cael stopio?"
"Allwn ni ddim mynd yn gynt?"
"Gawn ni stori?"

t. 2 →



"Dwi ddim yn licio'r CD yma."
"Hei, dos â dy benelin o fan'na!"
"Pryd ga' i eistedd wrth y ffenest?"
"Mae'r gwres yn mynd i fyny 'nhrwyn i."
"Dwi'n oer."
"Paid â chwythu arna' i, ti'n dwyn fy ngwynt i."
"Gawn ni fferan, os gwelwch yn dda?"
"Pam wyt ti'n tynnu tafod fel 'na?"
"Mae hi'n pigo'i thrwyn rŵan."
"Dwi isio diod."
"Dwi isio pi-pi."

Ac o'r sêt flaen,
rhagor o siarad plaen:
"Reit, dyna ddigon. Dim mwy o lol,
neu mi fydda i'n stopio'r car.
'Dach chi'n lwcus ofnadwy eich bod yn cael gweld y wlad.
Mae 'na rai plant nad ydyn nhw byth yn cael tro . . ."

Tawelwch.
Tangnefedd.
Tro arall.

"Dwi'n teimlo'n sâ-â-âl . . ."

